# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4**
**Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**
Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Ionawr 2025
Amser: 09.00 - 12.13

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/14790

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Sam Rowlands AS |
| Tystion: | Lis Burnett, Arweinydd, Cyngor Bro Morgannwg<br>Anthony Hunt, Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br>Nia Jeffreys, Arweinydd, Cyngor Gwynedd<br>Andrew Morgan, Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>Darren Hughes, Cyfarwyddwr, Conffederasiwn GIG Cymru<br>Catherine Phillips, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chadeirydd Grŵp Cymheiriaid Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyllid<br>Lance Carver, Cadeirydd, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg<br>Jane Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, |

| | |
|---|---|
| | Cyngor Sir Powys (hefyd y Swyddog a.151 yn cynrychioli Cymdeithas Trysoryddion Cymru)<br>Dr Victoria Winckler, Cyfarwyddwr, Sefydliad Bevan |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Sian Giddins (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Rhiannon Williams (Dirprwy Glerc)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Božo Lugonja (Ymchwilydd)<br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd) |

## Cofrestru

## Rhag-gyfarfod preifat

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

**2.1 PTN 1 – Llythyr gan y Llywydd at Fforwm y Cadeiryddion: Cynrychiolaeth ar gyrff rhyngseneddol – 7 Ionawr 2025**

**2.2 PTN 2 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Rhagor o wybodaeth gan yr Ysgrifennydd Cabinet am y Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 5 Rhagfyr – 7 Ionawr 2025**

## 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26: Sesiwn dystiolaeth 5

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26 gan y tystion a ganlyn: y Cynghorydd Lis Burnett, Arweinydd Cyngor Bro Morgannwg; y Cynghorydd Nia Jeffreys, Arweinydd Cyngor Gwynedd; y Cynghorydd Andrew Morgan, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; a'r Cynghorydd Anthony Hunt, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn gofyn cwestiwn nas cyrhaeddwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

## Egwyl

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26: Sesiwn dystiolaeth 6

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth am Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26 gan y tystion a ganlyn: Darren Hughes, Cyfarwyddwr, Conffederasiwn GIG Cymru; Catherine Phillips, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a Chadeirydd Grŵp Cymheiriaid y Cyfarwyddwyr Gweithredol Cyllid; Lance Carver, Cadeirydd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bro Morgannwg; a Jane Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Cyngor Sir Powys (hefyd y Swyddog a.151 yn cynrychioli Cymdeithas Trysoryddion Cymru).

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26: Sesiwn dystiolaeth 7

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Victoria Winckler, Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan, ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

## 8 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2024

8.1 Trafododd y Pwyllgor y nodyn briffio ar Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2024. Nododd y Pwyllgor adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y rheoliadau hyn, cyn penderfynu peidio â chyhoeddi adroddiad ar wahân.

## 9 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Cymru) 2025

9.1 Trafododd y Pwyllgor y nodyn briffio ar Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Cymru) 2025. Nododd y Pwyllgor adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y rheoliadau hyn, cyn penderfynu peidio â chyhoeddi adroddiad ar wahân.

## 10 Ymgynghoriad ar adolygiad o God Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru

10.1 Nododd y Pwyllgor y papur ar yr ymgynghoriad ar adolygiad o God Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru, cyn penderfynu peidio ag ymateb yn ffurfiol.

## 11 Cynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2025-26

11.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Ffioedd Archwilio Cymru 2025-26.